
Department for Work & Pensions

# Eich Pasbort Addasu Iechyd

## Cymorth i weithio




Hawdd i'w ddarllen

# Cynnwys

Rhagymadrodd ........................................................................3

Pasbort Addasu Iechyd ..........................................................4

Amdanoch chi .........................................................................6

Am eich iechyd........................................................................8


Am waith...............................................................................13

Cymorth tra'ch bod yn y gwaith ............................................27

Ceisio am gymorth gan Fynediad at Waith...........................29




Yn y ddogfen Hawdd i'w Darllen hon, Mae geiriau anodd yn **ddu**. Rydym yn esbonio beth mae'r geiriau hyn yn golygu yn y frawddeg ar ôl i ni eu defnyddio.




Mae rhai geiriau yn las ac wedi'u tanlinellu.

Dolenni yw'r rhain fydd yn mynd i wefan arall sydd â rhagor o wybodaeth.

# Rhagymadrodd

Mae'r wybodaeth hon o'r 'Adran Gwaith a Phensiynau'.




Mae ynglŷn â'r **Pasbort Addasu Iechyd**.

Mae **Pasbort Addasu Iechyd** yn ddogfen fydd yn eich helpu os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n gwneud gwaith yn anodd i chi.




Atebwch y cwestiynau i ddweud wrthym pa gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch yn y gwaith.



Mae'r pasbort hwn yn eiddo i chi.

Nid yw'n gallu cael ei rannu ag unrhyw un arall oni bai eich bod yn dweud hynny.

# Pasbort Addasu Iechyd

Gellir defnyddio'r Pasbort Addasu Iechyd i'ch:




- Helpu i feddwl am ba gymorth ac **addasiadau rhesymol** y gall fod eu hangen arnoch pan rydych yn y gwaith.

  **Addasiadau rhesymol** yw newidiadau a gwasanaethau mae lleoedd a gwasanaethau yn gallu eu gwneud fel y gall pobl anabl gymryd rhan fel pawb arall.




- Helpu i siarad â sefydliadau am addasiadau rhesymol a chymorth y gall fod eu hangen arnoch.

- Helpu i gael cymorth gan **Fynediad at Waith**.

  **Mynediad at Waith** yw cymorth llywodraeth i'ch helpu yn y gwaith. Mae'n gallu cynnwys:



  - Arian ar gyfer cyfarpar i'ch helpu i weithio.



  - Cymorth i fynd i ac o'r gwaith.



  - Cymorth pan rydych chi yn y gwaith.

# Amdanoch chi




**Cwestiwn 1:** Beth yw'ch enw olaf?




**Cwestiwn 2:** Beth yw'ch enwau cyntaf a chanol?



**Cwestiwn 3:** Faint o oriau'r wythnos ydych chi'n meddwl y gallech weithio?



**Cwestiwn 4:** Ble ydych chi am weithio?



**Cwestiwn 5:** Pa fath o waith hoffech chi ei wneud?

# Am eich iechyd



**Cwestiwn 6a:** Oes gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar eich bywyd dyddiol?

Gallai effeithio ar:

- Sut rydych yn siarad â phobl eraill.
- Sut rydych yn cynllunio a threfnu'r hyn rydych yn mynd i'w wneud.
- Sut rydych yn delio â pheidio a gallu gweld neu glywed.
- Sut rydych yn mynd o gwmpas.
- Sut rydych yn delio â newid.
- Sut rydych yn cael cymorth.

☐ Oes

☐ Nac oes

*Os ateboch chi 'Nac oes', ewch i gwestiwn 9.*




**Cwestiwn 6b:** Dywedwch wrthym am eich anabledd neu gyflwr iechyd.





**Cwestiwn 7a:** Ydych anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio arnoch yn wahanol:

- Ar ddyddiau gwahanol.
- Ar adegau gwahanol o’r dydd.
- Yn dibynnu ar ble rydych chi.

☐ Ydy

☐ Nac ydy

*Os ateboch chi 'Nac ydy', ewch i gwestiwn 8.*




**Cwestiwn 7b:** Pa mor aml mae'ch anabledd neu gyflwr iechyd yn newid?



**Cwestiwn 7c:** Pa help fyddech chi angen pan fo bywyd yn fwyaf anodd?



**Cwestiwn 8a:** Gawsoch chi unrhyw gymorth ychwanegol pan oeddech chi yn eich swydd, ysgol, coleg neu brifysgol ddiwethaf?

Gallai hyn fod yn bethau fel amser ychwanegol mewn arholiadau, neu gael hyfforddwr swydd – dyma unigolyn sy'n eich helpu yn y gwaith.

☐ Do

☐ Naddo

*Os ateboch chi 'Naddo', ewch i gwestiwn 9.*



**Cwestiwn 8b:** Pa gymorth ychwanegol gawsoch chi?

# Am waith




**Cwestiwn 9a:** Fyddai angen cymorth arnoch chi i gyrraedd y gwaith?

Gallai hyn gynnwys:

- Cymorth i ddefnyddio bysiau a threnau.
- Tacsi.
- Newidiadau i gar neu fan.
- Rhywun i deithio gyda chi.


☐ Byddai

☐ Na fyddai

*Os ateboch chi 'Na fyddai', ewch i gwestiwn 10.*



**Cwestiwn 9b:** Pa gymorth sydd ei angen arnoch chi i gyrraedd y gwaith?



**Cwestiwn 10a:** Fyddai angen unrhyw gymorth arnoch chi i fynd i mewn i adeilad eich gwaith?


Gallai hyn gynnwys:

- Lifftiau.
- Rampiau ar gyfer cadair olwyn
- Drysau lletach.
- Mannau parcio arbennig.
- Arwyddion clir.

☐ Byddai

☐ Na fyddai

*Os ateboch chi 'Na fyddai', ewch i gwestiwn 11.*



**Cwestiwn 10b:** Pa gymorth fyddai ei angen arnoch chi i fynd i mewn i adeilad eich gwaith?



**Cwestiwn 11a:** Oes angen cymorth arnoch chi i siarad â phobl eraill yn y gwaith?

Gallai hyn gynnwys:



- Ffyrdd gwahanol o wneud cyfweliadau swyddi, fel rhoi rhagor o amser i chi feddwl am sut i ateb cwestiwn.



- Dehonglydd Iaith Arwyddion Brydeinig – dyma rywun fydd yn arwyddo'r hyn mae pobl yn eu dweud ar eich cyfer.



- Rhywun i  gymryd nodiadau i chi.

☐ Oes

☐ Nac oes

*Os ateboch chi 'Nac oes', ewch i gwestiwn 12.*



**Cwestiwn 11b:** Pa gymorth sydd ei angen arnoch chi yn y gwaith?



**Cwestiwn 12a:** Ydych chi wedi defnyddio unrhyw raglenni cyfrifiadur arbennig yn yr ysgol, gartref neu yn y gwaith?

Gallai hyn gynnwys:

- Jaws.
- Dragon.
- ZoomText.
- Read and Write Gold.
- Cyfarpar darllen dogfennau.

☐ Do

☐ Naddo

*Os ateboch chi 'Naddo', ewch i gwestiwn 13.*



**Cwestiwn 12b:** Pa raglenni cyfrifiadur ydych chi wedi'u defnyddio?



**Cwestiwn 13a:** Fyddai angen unrhyw hyfforddfiant i ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbennig neu raglenni cyfrifiadur arnoch chi?

☐ Byddai

☐ Na fyddai

*Os ateboch chi 'Na fyddai', ewch ymlaen i gwestiwn 14.*



**Cwestiwn 13b:** Dywedwch wrthym pa rai y byddai angen hyfforddiant arnoch chi i'w defnyddio.



**Cwestiwn 14:** Os nad ydych wedi defnyddio rhaglenni cyfrifiadur arbennig o'r blaen, fyddech chi'n hoffi dysgu rhagor am rai y gallech chi eu defnyddio?

- ☐ Byddwn
- ☐ Na fyddwn



**Cwestiwn 15a:** Ydych chi wedi defnyddio unrhyw gyfarpar yn y gwaith oedd yn ddefnyddiol i chi?

Gallai hyn gynnwys:

- Darllenydd braille – mae hwn yn helpu pobl sy'n ddall i ddarllen geiriau sydd ar gyfrifiadur.
- Chwyddwydr – mae hwn yn gwneud i ysgrifen fach edrych yn fwy.
- Cymhorthion clyw.
- Cadair olwyn.
- Clustffonau sy'n cau sŵn allan.

☐ Do

☐ Naddo

*Os ateboch chi 'Naddo', ewch i gwestiwn 16.*




**Cwestiwn 15b:** Dywedwch wrthym am gyfarpar rydych wedi'i gael yn ddefnyddiol.




**Cwestiwn 16a:** Oes angen unrhyw newidiadau i'r lle y byddech yn gweithio ynddo?

Gallai hyn gynnwys:

- Newidiadau i olau.
- Mannau tawel.


☐ Oes

☐ Nac oes

*Os ateboch chi 'Nac oes', ewch i gwestiwn 17.*




**Cwestiwn 16b:** Dywedwch wrthym am hyn.



**Cwestiwn 17:** Os nad ydych wedi defnyddio unrhyw gyfarpar arbennig o'r blaen, fyddech chi'n hoffi dysgu rhagor am rai y gallech eu defnyddio?

☐ Byddwn

☐ Na fyddwn

# Cymorth tra'ch bod yn y gwaith



**Cwestiwn 18a:** Fyddai angen rhywun gyda chi yn y gwaith i'ch cynorthwyo chi?

Gallai hyn gynnwys gweithiwr cymorth neu hyfforddwr swydd i'ch helpu chi ag:

- Esbonio rheolau.
- Cael rhagor o amser i feddwl.
- Cael perthynas dda â'ch rheolwr.

☐ Byddai

☐ Na fyddai

*Os ateboch chi 'Na fyddai', ewch i gwestiwn 19.*




**Cwestiwn 18b:** Pa fath o gymorth sydd ei angen arnoch chi?

# Ceisio am gymorth gan Fynediad at Waith

Gallwch geisio yn awr i Fynediad at Waith am gymorth:




- Ar-lein yn [www.gov.uk/access-to-work](http://www.gov.uk/access-to-work)



- Trwy ffôn: 0800 121 7479



- Trwy ffôn testun: 0800 121 7579

canolfanbydgwaith

Gall eich Canolfan Gwaith leol eich cefnogi gyda gwneud cais os oes angen help arnoch.



**Cwestiwn 19:** Ydych chi wedi gallu cael cyfweliad swydd?

☐ Do

☐ Naddo

*Os ateboch chi 'Naddo', ewch i gwestiwn 24.*




**Cwestiwn 20:** Oes angen cymorth arnoch chi yn y cyfweliad?

☐ Oes

☐ Nac oes

*Os ateboch chi 'Nac oes', ewch i gwestiwn 24.*




**Cwestiwn 21:** Pryd wnaethoch chi geisio am gymorth gan Fynediad at Waith?




**Cwestiwn 22:** Wnaethoch chi gael cymorth gan Fynediad at Waith?

☐ Do

☐ Naddo



**Cwestiwn 23:** Oes swydd wedi cael ei chynnig i chi, neu oes angen cymorth arnoch chi i aros yn eich swydd?

Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Gweithio i chi’ch hun.
- Arfer â gweithio mewn swydd.

☐ Oes

☐ Nac oes




**Cwestiwn 23:** Pryd wnaethoch chi geisio am gymorth gan Fynediad at Waith?




**Cwestiwn 24:** Wnaethoch chi gael cymorth gan Fynediad at Waith?

☐ Do

☐ Naddo